

## **Safonau'r Iaith Gymraeg – Digwyddiadau / Darlithoedd Cyhoeddus a Seremonïau Graddio / Gwobrwyo.**

O dan Fesur y Gymraeg [Cymru] 2011 mae dyletswydd statudol ar Brifysgol Aberystwyth i gydymffurfio ag 8 o Safonau Cyflenwi Gwasanaethau sy'n ymwneud â digwyddiadau a darlithoedd cyhoeddus a chyda seremonïau graddio a gwobrwyo. Mae'r Safonau hyn wedi'u gosod er mwyn sicrhau na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth drefnu a chynnal y digwyddiadau hyn.

### **Digwyddiadau Cyhoeddus**

Wrth drefnu digwyddiad cyhoeddus neu wrth ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus rhaid i'r canlynol fod yn ddwyieithog :

- y deunydd sy'n hysbysebu ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad
- unrhyw arwyddion a arddangosir yn y digwyddiad
- unrhyw gyhoeddiadau sain a wneir yn y digwyddiad (heblaw os oes cyhoeddiad yn ystod argyfwng neu ymarfer argyfwng)
- unrhyw ddeunydd sy'n cael ei arddangos yn gyhoeddus yn y digwyddiad

Wrth gynhyrchu deunydd dwyieithog rhaid i'r Gymraeg fod ar y chwith neu uwchben y Saesneg ac yr un mor flaenllaw. Os bydd rhaid cynhyrchu fersiynau ar wahân am resymau ymarferol, rhaid i'r ddau fersiwn fod o'r un maint ac ansawdd a dylid cynnwys neges sy'n datgan bod y cyhoeddiad ar gael yn yr iaith arall.

Fodd bynnag, **nid** yw'r Safonau uchod (Safon 36 yn benodol) yn gymwys i

- berfformiadau o gerddoriaeth
- gynyrchiadau artistig neu ddramatig
- seminarau neu gyflwyniadau llafar sy'n ymwneud â'r perfformiad neu'r cynhyrchiad
- unrhyw recordiad o'r perfformiad, y cynhyrchiad, y seminar neu'r cyflwyniad llafar.

Mae'r rhestr uchod yn ddigwyddiadau sydd **wedi'u heithrio** o'r Safonau hyn.

### **Darlithoedd Cyhoeddus**

Wrth drefnu darlith gyhoeddus fe ddylech chi:

- ystyried pwnc y ddarlith
- ystyried pa fath o gynulleidfa a ragwelir

Os ydych o'r farn y byddai'r ddarlith yn denu siaradwyr Cymraeg dylid trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd fel bod modd iddynt ddefnyddio'r Gymraeg wrth ofyn cwestiynau yn ystod neu/ac ar ddiwedd y ddarlith.

Os byddwch yn defnyddio cyfieithydd ar y pryd, cyn dechrau'r ddarlith, fe ddylech ddatgan fod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg a bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.

### **Seremonïau Graddio a Gwobrwyo**

Wrth drefnu seremoni graddio neu seremoni gwobrwyo rhaid i'r canlynol fod yn ddwyieithog :

- arwyddion a arddangosir yn lleoliad y seremoni
- gwybodaeth am drefn y seremoni

Wrth wahodd rhywun i siarad mewn seremoni graddio neu wobrwyo rhaid i chi :

- ofyn iddynt a ydynt yn dymuno siarad Cymraeg yn y seremoni

Os yw o leiaf un o'r siaradwyr gwadd am siarad yn Gymraeg yn y seremoni mae'n rhaid i chi :

- **un ai** drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd
- **neu** ddarparu cyfieithiad Saesneg ysgrifenedig yn y seremoni.

Fel arfer cyfieithiad ysgrifenedig a ddarperir yn ein seremonïau graddio.

### **Trefnu a Hwyluso Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd**

#### **Sut mae trefnu Cyfieithu ar y Pryd?**

Dylid cysylltu â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg ([wlcstaff@aber.ac.uk](mailto:wlcstaff@aber.ac.uk)) o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y digwyddiad gyda'r manylion hyn:

- Dyddiad ac amser y digwyddiad
- Lleoliad y digwyddiad
- Pwrpas y digwyddiad
- Awgrym o faint sy'n mynychu a faint nad ydynt yn siarad Cymraeg ac a fydd angen clustffonau

#### **Beth yw Cyfieithu ar y Pryd?**

Ystyr 'cyfieithu ar y pryd' yw cyfieithu o un iaith i'r llall tra bo rhywun yn siarad ac mae'n wahanol i ôl-gyfieithu lle mae'r cyfieithydd yn crynhoi yn yr iaith arall ar ôl i'r siaradwr lefaru nifer o frawddegau. Trwy ddefnyddio offer cyfieithu, mae'n bosibl cyfieithu ar yr un pryd â'r siaradwr, sy'n golygu na fydd y cyfarfod yn para'n rhy hir. Fel rheol yng Nghymru byddwn yn cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg, oherwydd mae siaradwyr Cymraeg yn *deall* Saesneg, sy'n golygu mai gwasanaeth ar gyfer y di-Gymraeg yw hwn. Mae'r gwasanaeth yn golygu bod siaradwyr Cymraeg yn cael siarad eu dewis iaith a bod y di-Gymraeg yn gallu cymryd rhan yn y cyfarfod heb drafferth.

## **Templedi defnyddiol.**

Deunydd hysbysebu darlith gyhoeddus pan fyddwch wedi trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd e.e. poster, gwahoddiad cyffredinol.

*Sylwch bod croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg yn y digwyddiad hwn a bydd cyfieithu ar y pryd ar gael.*

*Note that you are welcome to use Welsh in this event as simultaneous translation will be available.*

## **Gwahoddiad i siaradwr/wraig gwadd**

*Diolch am gytuno i siarad yn ein seremoni gwobrwyo/graddio. Os hoffech chi draddodi yn Gymraeg a wnewch chi adael i ni wybod os gwelwch yn dda fel y gallwn drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd / gyfieithiad Saesneg ysgrifenedig o'ch araith.*

*Thank you for agreeing to speak at our awards/graduation ceremony. If you would like to deliver your talk in Welsh please let us know so that we can arrange simultaneous translation / a written English translation of your speech.*

## **Datganiad mewn darlith gyhoeddus (i'w roi ar lafar)**

*Cyn dechrau'r noson/ddarlith hoffwn i atgoffa pawb bod croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer gofyn cwestiynau gan fod cyfieithu ar y pryd ar gael.*

*I have just explained to the Welsh speakers present that they are welcome to ask any questions they may have in Welsh as we have a simultaneous translator here.*